COFIWCH

Os hoffech wybodaeth bellach am doriadau bwriadol i'ch cyflenwad trydan cysylltwch â ni ar y rhif ffôn neu gyfeiriad ar y llythyr hysbysu.

Cofrestr Gwasanaethau Blaenoriaeth

Os ydych yn dall, rhannol ddall neu yn dibynnu ar eich cyflenwad trydan ar gyfer offer meddygol, cewch eich cynnwys ar y gofrestr gwasanaeth blaenoriaeth. Cysylltwch a'ch cyflenwr trydan i gael eich cofrestru – bydd eu henw a rhif ffôn ar eich bil.

CUSTOMER SERVICE EXCELLENCE
RHAGORIAETH MEWN GWASANAETH I GWSMERIAID
CSE

Western Power Distribution (South Wales) plc
Cofrestrwyd yn Lloegr a Chymru Rhif 2366985.
Swyddfa Gofrestredig:
Avonbank, Feeder Road, Bristol BS2 0TB.
Gwefan www.westernpower.co.uk

TORIADAU BWRIADOL

I'CH CYFLENWAD TRYDAN

WESTERN POWER DISTRIBUTION
Serving the South West and Wales
Gwasanaethu'r De Orllewin a Chymru

Toriadau bwriadol i'ch cyflenwad trydan

O bryd i'w gilydd mae Western Power Distribution yn gwneud gwaith ar y system ddosbarthu trydan, er engraifft, i gynnal y rhwydwaith trydan neu i gysylltu cyflenwadau newydd. Yn anochel mae hyn yn golygu bod rhaid torri ar gyflenwadau tryda n am resymau dioglewch nes y bydd y gwaith yn cael ei gwblhau.

Amseru

Tra ydym wastad yn ceisio gwneud gwaith gyda'r lleiaf posib o anghyfleustra i'n cwsmeriaid bydd amseroedd pan na fydd gennym y dewis ond i dorri ar y cyflenwad trydan. Hyd yn oed yn yr achosion hyn rydym yn ceisio dewis yr amser sydd fwyaf cyfleus i fwyafrif ein cwsmeriaid, ond oherwydd ein rhaglen eang o waith parhaol, nid yw hyn bob amser yn bosibl.

Beth allwch ei wneud?

- Gwnewch yn siwr bod gennych dortsh wrth law a bod y batris yn gweithio
- Paratowch fflasgiau o ddiodydd poeth a bwyd i'w defnyddio yn ystod y toriad.
- Cadwch ddrws eich rhewgell ar gau tra bydd y trydan i ffwrdd. I gadw'r rhewgell yn oer rhowch flanced drosti a llenwch unrhyw lefydd gwag ynddi â phapur newydd cyn i'r trydan gael ei ddiffodd.
- Os oes cyfleuster rhewi sydyn ar eich rhewgell, rhowch ymlaen awr cyn y toriad i'ch trydan a cadwch ymlaen am awr ar ôl i'r trydan ddychwelyd. Yn ddibynnol ar y math o rewgell sydd gennych, mae'n bosib i fwyd aros wedi ei rewi am hyd at 12 awr heb bwer.

Cyflenwad Trydan Arall

Os ydych angen cyflenwad trydan arall efallai y bydd yn bosib llogi generadur gan gontractiwr trydan.

Os ydych yn penderfynu llogi generadur, mae'n hanfodol am resymau dioglewch ei fod yn cael ei gysylltu gan drydanwr cymwys.

Cofiwch y gallai cyflenwad generadur fod o safon is na'r prif gyflenwad.

Diogelwch

- Am resymau diogelwch diffoddwch offer trydan a pheiriannau pan fo'r cyflenwad trydan yn cael ei dorri.
- Gadewch ambell i olau ymlaen er mwyn gwybod pan fo'r trydan yn dychwelyd.
- Pan fo'r trydan yn dychwelyd, peidiwch ag anghofio troi'r offer trydanol yn ôl ymlaen ac ail osod unrhyw offer amseru e.e. gwresogydd dwr, larwm ty, fideo ac ati.

Os ydych yn rhedeg busnes

Toriadau byr yn unig all rhewgelloedd masnachol eu cymeryd, ac os oes gennych rewgelloedd agored mae'n syniad trefnu cyflenwad trydan arall.

Os yw'r ffôn yn hanfodol i'ch busnes, cofiwch sicrhau bod y system yn gweithio heb gyflenwad trydan.